



Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

Taith Gwirfoddoli

Unwaith mae unigolyn yn dangos diddordeb mewn gwirfoddoli, mae'n bwysig cydnabod y diddordeb cyn gynted â phosibl. Dilynyd y llinell amser a'r daith isod.

- Cysylltodd y darpar wirfoddolwr â ni gyda diddordeb naill ai drwy e-bost neu drwy wefannau trydydd parti (Gwirfoddoli Cymru, Prifysgolion).
- Anfonwyd y ffurflen gais o fewn 3 diwrnod gwaith o'r diddordeb cychwynnol.
- Ar ôl dychwelyd y ffurflen gais, trefnwyd amser addas i alw a thrafod y prosiect gyda'r darpar wirfoddolwr a darganfod ychydig mwy amdanynt. Anelwyd at gwblhau hyn erbyn diwedd yr un wythnos waith. Anfonwyd am dystlythyrau cyn gynted ag y derbyniwyd y ffurflen gais.
- Ar ôl yr alwad ffôn gyda'r gwirfoddolwr, dechreuon ni broses wirio Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cwblhawyd y cyfan yn electronig oherwydd pandemig Covid-19.
- Trefnwyd cyflwyniad i wirfoddoli yn ystod cyfnod ymsefydlu mewn cartref gofal gyda Rheolwyr y Prosiect fel bod y gwirfoddolwr yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r rôl hon.
- Trefnwyd cyfarfod Zoom i gadarnhau dogfennau adnabod ar gyfer gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'r Swyddog Cymorth Gwirfoddolwyr.
- Rhoddwyd gwybod i'r Cartref Gofal am y darpar wirfoddolwr.
- Cadarnhawyd gofynion presennol y Cartref Gofal ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Trefnwyd cyfarfod Zoom i gadarnhau dogfennau adnabod ar gyfer gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'r Swyddog Cymorth Gwirfoddolwyr a chynhaliodd gyflwyniad sefydlu i wirfoddoli gydag Age Cymru.
- Anfonwyd pecyn croeso a pholisïau a gweithdrefnau Gwirfoddolwyr.
- Trefnwyd Hyfforddiant sylfaenol Diogelu, a Hyfforddiant cyfathrebu dementia dros Zoom.
- Aros am wiriad cadarnhau manylach Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Trefnwyd bod crys-t yn cael ei anfon i'r gwirfoddolwr i ddangos bod yr unigolyn yn wahanol i staff cartrefi gofal.
- Cyfarfod â chartref gofal ar gyfer cyfnod cynefino.
- Trefnu dyddiad cychwyn.
- Wrth symud ymlaen, sicrhau bod cyswllt a chymorth e-bost rheolaidd ar gyfer gwirfoddolwyr a staff Cartrefi Gofal.

Roedd hyd y broses yn amrywio o ran rheoleidd-dra cyfathrebu gan y gwirfoddolwr a'r amser oedd angen i gwblhau gwiriad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.